Torfaen Childcare Business Support Team

Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant Torfaen

HOLIADUR DOD YN WARCHODWR PLANT

Bwriad yr holiadur yma yw eich helpu i feddwl am eich syniad o warchod plant, gweld a fydd eich gwasanaeth yn ymarferol ac yn gynaliadwy ac yn eich helpu gyda'ch cynllun busnes.

Rydym yn awgrymu eich bod yn caniatáu digon o amser i gwblhau'r holiadur yma.

Mae rhai rhifau cyswllt a gwefannau defnyddiol isod:

- Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant Torfaen: Ffôn. 01633 648114/648115
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen: Ffôn. 0800 0196330

Gwefan: www.torfaenfis.org.uk

- Gwefan Arolygaeth Gofal Cymru:www.cssiw.wales.gov.uk
- Gwefan y Gymdeithas Gofal Plant Genedlaethol: www.ncma.org.uk

Mae 4 adran i'r Arolwg:

Rhan 1: Gwarchod plant yn eich ardal

Rhan 2: Gwarchod plant a'r effaith ar eich teulu

Rhan 3: Gofynion Cyfreithiol

Rhan 4: Arian a'r busnes

Rhaid i chi gwblhau'r pedair rhan a dod â nhw gyda chi i'r sesiwn briffio 'Dod yn Warchodwr Plant'.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
Family Information Service

ENW:

Rhan 1: Gwarchod plant yn eich ardal, a'ch rôl:

Pwrpas yr Adran hon yw penderfynu a yw'n werth sefydlu busnes gofal plant newydd yn eich ardal – a fydd yn gynaliadwy?

- Pam ydych chi am fod yn warchodwr plant?

b) Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddarparwyr gofal plant (e.e. gwarchodwyr eraill, meithrinfeydd, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd cofleidiol etc.) sydd yn eich ardal eisoes? Bydd gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Torfaen y wybodaeth hon .

c) Pa oriau ydy'r darparwyr gofal plant lleol yma'n gweithio?

d) Ydych chi'n gwybod faint yw eu ffioedd am sesiwn / yr awr?

e) Ydych chi'n gwybod faint o leoedd gwag sydd ganddyn nhw, neu faint sydd ar eu rhestr aros?

f) Ydych chi wedi gweld Asesiad Torfaen o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2010-2011?

Gallwch gael hyd i'r adroddiad yma trwy fynd i wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd www.torfaenfis.org.uk

g) O ystyried yr uchod, ydych chi'n teimlo bod gwagle yn eich ardal am warchodwr plant cofrestredig, a pha oriau ydych chi'n credu y dylech chi weithio?

(Meddyliwch am gyflogwyr yn eich ardal leol, a'r oriau y maen nhw'n gweithredu e.e. gwaith sifft, a hefyd oriau gweithredu darparwyr gofal plant eraill.)

h) Mae galw cynyddol yn Nhorfaen am ofal plant y tu allan i oriau gwaith arferol. A fyddech chi'n ystyried cynnig gwasanaeth y tu allan i'r oriau yma? Os felly, pa broblemau posibl allech chi ddod ar eu traws a sut fyddech yn goresgyn y rhain?

Rhan 2: Gwarchod plant a'r effaith ar aelodau eraill yn y teulu:

Pwrpas yr adran hon yw eich helpu i drafod gydag aelodau'ch teulu'r problemau o gwmpas gwarchod plant a sut y gallai effeithio arnyn nhw. Defnyddiwch y gofod o dan bob cwestiwn i wneud nodiadau o broblemau, gofidiau neu bryderon a allai effeithio arnoch chi ac unrhyw aelodau eraill y teulu. Gellir trafod y rhain yn y sesiwn briffio Dod yn Warchodwr Plant.

- Os oes gyda chi blant eich hunan, a fyddan nhw'n cael eu heffeithio? A fyddan nhw'n hapus i'ch rhannu chi a'u teganau etc.?

b) Sut fydd gwarchod plant yn effeithio aelodau eraill eich teulu?

(Meddyliwch am faterion fel: efallai fod rhywun yn gweithio sifftiau nos – a fyddan nhw'n gallu ymdopi gyda'r sŵn? A fydd anifeiliaid anwes yn ymdopi gyda phlant yn y tŷ? Efallai bydd rhieni'r plentyn yn gofyn i'r anifail gael ei gadw i ffwrdd o'r plentyn etc.?)

c) A fydd aelodau'r teulu yn hapus gyda'r math o newidiadau y mae'n bosibl y bydd rhaid i chi wneud i'r tŷ a'r ardd i'w gwneud yn fwy diogel ac yn gyfeillgar i blant?

(Gall enghreifftiau gynnwys gorchuddio pwll drud yn yr ardd, gatiau ar waliau ar gyfer y grisiau, posteri ar waliau, arddangosfeydd, newidiadau i ffyn canllaw y grisiau os yw'r tyllau'n rhy lydan, anghenion uchder ar ffens yn yr ardd.)

d) Meddyliwch am anghenion eich teulu, fel, os oes gennych eich plant eich hunain, efallai bydd yn anodd i wahodd ffrindiau i de oherwydd efallai bydd mwy o blant yno nag y gallwch ofalu amdanyn nhw ar un adeg. Efallai bydd angen gwneud trefniadau amgen y tu allan i oriau gwarchod plant ar gyfer apwyntiadau deintydd, meddyg, ysbyty neu eraill etc.

Rhan 3: Gofynion Cyfreithiol

Gwnewch nodyn o unrhyw gwestiynau neu sylwadau sydd gennych chi ynglŷn â phob un o'r canlynol.

- a) Ydych chi wedi edrych ar y Cais i gofrestru fel Gwarchodwr Plant a'r Canllaw i Ymgeiswyr?
  Mae'r rhain ar wefan AGC: www.cssiw.org.uk

b) Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sail i gofrestru gwarchodwyr plant yn:

- Rhan 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymwyso) (Cymru) 2010
- Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoledig

Bydd angen i chi gyfarwyddo â'r dogfennau yma cyn cofrestru. Maen nhw i gyd ar gael ar wefan AGC.

c) Ydych chi wedi darllen Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoledig AGC?

(gwefan AGC)

d) Cyn cofrestru fel gwarchodwr plant, bydd angen i chi gwblhau'r cwrs hyfforddiant cydnabyddedig yn ogystal â chwrs cymorth cyntaf pediatrig.

e) Ydych chi'n ymwybodol y bydd angen i bob aelod o'r teulu sy'n 16 oed a throsodd gael gwiriad *Cofnodion* Troseddol?

f) Ydych chi'n ymwybodol y bydd angen i chi, fel darpar warchodwr plant cofrestredig, gael tystlythyr meddygol gan eich meddyg teulu a fydd yn gorfod gwneud sylw ar eich ffitrwydd corfforol a meddyliol i fod yn warchodwr plant?

(Efallai bydd eich meddyg yn codi tâl am y gwasanaeth yma.)

g) Ydych chi'n ymwybodol y bydd gwiriad Gwasanaeth Cymdeithasol yn cael ei wneud ar eu teulu?

h) Does dim angen caniatâd cynllunio fel arfer ar warchodwyr plant ond efallai byd rhai gofynion ar eich busnes gan eich Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl). Dylech gael cyngor yr eich ACLl cyn gwneud eich cais i gofrestru fel gwarchodwr plant. Mae'r ffurflen gais yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi ymgynghori â'r ACLl.

i) Os ydych chi'n rhentu eich tŷ bydd angen caniatâd ysgrifenedig gan eich landlord i redeg eich busnes gwarchod plant o gartref. Ydych chi wedi cysylltu â'ch landlord eto?

Rhan 4: Arian a Busnes

- Ydych chi'n ymwybodol y byddwch yn hunan-gyflogedig a byd angen i chi gwblhau gwaith papur CThEM bob blwyddyn?

b) Ydych chi'n ymwybodol y bydd rhaid i chi drefnu talu Yswiriant Cenedlaethol eich hun, a chwblhau eich ffurflenni treth eich hun?

c) Ydych chi'n ymwybodol y bydd angen yswiriant busnes os ydych chi'n defnyddio car ar gyfer gwarchod plant?

d) Mae Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Torfaen yn cynnig grantiau cychwynnol i warchodwyr plant i helpu dalu am eitemau hanfodol yn ymwneud â sefydlu eich busnes gwarchod plant. Ydych chi wedi meddwl am sut y byddech chi'n ariannu unrhyw gostau ychwanegol eraill?

e) Rhestrwch y costau posibl a allai fod arnoch chi wrth sefydlu busnes gwarchod plant. Er enghraifft: gwneud y cartref yn ddiogel, teganau, adnoddau, offer diogelwch etc.

f) Wrth fod yn hunan-gyflogedig, gall eich incwm wythnosol amrywio. Meddyliwch am sut y byddwch yn rheoli hyn.

(e.e. yn ystod gwyliau'r ysgol efallai bydd y plant gyda chi'n llawn amser, felly bydd eich incwm yn cynyddu, neu, efallai bydd y plant yr ydych chi'n gofalu amdanyn nhw'n dechrau'n llawn amser yn yr ysgol felly bydd eich incwm yn gostwng.)

g) Ydych chi'n ymwybodol y gall rhai budd-daliadau gan y llywodraeth fod ar gael i chi o hyd?

(e.e. Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio.)

h) Meddyliwch am a rhestrwch beth yr ydych yn meddwl yw eich rhinweddau gwerthu unigryw, ystyriwch amser, ymrwymiad, brwdfrydedd, creadigrwydd, lleoliad, cymwysterau neu brofiad mewn gofal plant, ieithoedd a ddefnyddir etc.

- Rhestrwch y meysydd mewn busnes gwarchod plant yr ydych yn ansicr yn eu cylch.

Gellir trafod y rhain yn y Sesiwn Briffio Dod y Warchodwr Plant.

j) Gan ystyried yr adrannau uchod, ydych chi dal yn hyderus ac yn glir ynglŷn â dechrau eich busnes gwarchod plant eich hun?

Ydw ☐ Nac Ydw ☐

Cofiwch ddod â'r holiadur wedi'i gwblhau i'r sesiwn briffio Dod yn Warchodwr Plant.